Datganiad i'r Wasg
Press Release

Manylion pellach/Further details:
John Roberts 01286 675605 / 07770 781188 johnroberts@parabl.com
(Cyhoeddusrwydd/Publicity) neu/or Iolo Watcyn Thomas 01286 675333 / 07901 688263 iolowatcyn@gmail.com (Ysgrifennydd/Secretary)
www.cormeibioncaernarfon.org

CÔR MEIBION
• CAERNARFON •

TAITH WANWYN I GUERNSEY YN DERBYN NAWDD SYLWEDDOL GAN GYD SEFYDLYDD CWMNI SPECSAVERS

Diolch i gysylltiadau personol un o'r aelodau, mae Côr Meibion Caernarfon yn cynllunio taith gyffrous i Guernsey dros y cyfnod 25-29 Ebrill 2019. Gwneir hynny gyda chymorth cyd sefydlydd cwmni Specsavers - y nawdd mwyaf a dderbyniodd y côr ers ei sefydlu 51 mlynedd yn ôl.

Bydd hogia'r dre yn hedfan i Guernsey ar wahoddiad Côr Meibion Cymry'r ynys, gan aros tair noson yn Saint Peter Port. Yn ystod yr ymweliad bydd y ddau gôr yn cydganu mewn cyngerdd mawreddog yn neuadd hardd y St James Concert Hall er budd elusen leol.

Gwnaed y cysylltiad gan Guto Roberts, un o ail denoriaid Côr Meibion Caernarfon, a mab i Lywydd y côr, Dr Huw Roberts. Treuliodd Guto bedair blynedd yn gweithio yn Guernsey fel nyrs cyn dychwelyd i'w fro enedigol.

Meddai: "Mae gen i atgofion melys iawn am ynys Guernsey. Yno y cwrddais â'm gwraig, Gerda, a bum yn canu gyda Chôr Meibion Cymry Guernsey, neu Welsh Boys Aloud fel yr oeddem i gychwyn**.**

"Penderfynais geisio trefnu taith i Gôr Meibion Caernarfon i'r ynys dlos hon. Cysylltais â chwmnïau gwahanol yn chwilio am nawdd, yn cynnwys Dame Mary Perkins, cyd Sefydlydd Cwmni Specsavers, sy'n byw yn Guernsey. Mae hi'n hael ei chefnogaeth i'r celfyddydau ar yr ynys ac yn hoffi canu corawl.

"Cynigiodd nawdd sylweddol i'r daith fel bod cost yr ymweliad tri diwrnod yn rhesymol iawn i aelodau Côr Meibion Caernarfon. Edrychaf ymlaen at gyd ganu efo hen ffrindiau. Gobeithio y bydd Dame Mary ar gael i ddod i wrando arnom, ac y bydd y tywydd yn braf!"

Un arall sy'n croesawu rhodd Dame Mary Perkins yw Dyfan Jones, rheolwr siop Specsavers Caernarfon.

Meddai, "Ffurfiwyd Specsavers ganddi hi a'i gŵr Doug yn 1984. Erbyn hyn mae'r cwmni teuluol yn cyflogi bron i 30,000 o bobl mewn 1,400 o siopau ym Mhrydain, Iwerddon, Sgandinafia, Sbaen, Awstralia a Seland Newydd. Mae Dame Mary Perkins yn berson arbennig iawn."

DIWEDD
03/01/19

Linciau defnyddiol: Guto Roberts: 07737 485337 gutojroberts86@hotmail.co.uk

http://www.guernseywelshchoir.com/; https://en.wikipedia.org/wiki/Guernsey; https://www.visitguernsey.com/; https://en.wikipedia.org/wiki/Mary_Perkins ; https://stjames.gg/;

ENGLISH VERSION >>

Datganiad i'r Wasg
Press Release

Manylion pellach/Further details:
John Roberts 01286 675605 / 07770 781188 johnroberts@parabl.com
(Cyhoeddusrwydd/Publicity) neu/or Iolo Watcyn Thomas 01286 675333 / 07901 688263 iolowatcyn@gmail.com (Ysgrifennydd/Secretary)
www.cormeibioncaernarfon.org

CÔR MEIBION
• CAERNARFON •

SPRING TOUR OF GUERNSEY ATTRACTS CHOIR'S BIGGEST EVER SPONSORSHIP FROM THE JOINT FOUNDER OF SPECSAVERS

Thanks to the personal contacts of one of its members, Côr Meibion Caernarfon will visit Guernsey over the period 25-29 April 2019. The joint founder of Specsavers has made a large contribution towards the cost of the tour – the biggest sponsorship deal in the choir's 51 year history.

The Cofis will fly to Guernsey at the invitation of Guernsey Welsh Male Voice Choir, staying for three nights in Saint Peter Port, the island's capital. On the Saturday evening both choirs will sing in aid of a local charity at the prestigious St James Concert Hall.

The link with Guernsey was made by Guto Roberts, one of the choir's second tenors and son of choir President, Dr Huw Roberts. Guto spent four years working in Guernsey as a nurse before returning to his home town of Caernarfon.

He said: "I have very happy memories of my stay on the island. It was there that I met my wife Gerda and I sang with the Guernsey Welsh Male Voice Choir, or Welsh Boys Aloud as they were initially called.

"Guernsey made such an impression that I decided to see whether my present choir, Côr Meibion Caernarfon, could see the beauty of the island for themselves.

"Using my local knowledge, I contacted several companies looking for sponsorship, including Dame Mary Perkins, joint founder of Specsavers. She generously supports the arts on the island, and likes choral music.

"In response, she donated a large sum towards the cost of the tour so that the three day visit is affordable for Caernarfon choir members. I look forward to meeting old friends in Guernsey. I hope Dame Mary can to come to the concert and that the weather is fine!"

Dyfan Jones, manager of Caernarfon Specsavers welcomed Dame Mary Perkins' sponsorship of the tour.

He said, "She and her husband Doug created Specsavers in 1984 and the family company now employs almost 30,000 people in 1,400 shops in Britain, Ireland, Scandinavia, Spain, Australia and New Zealand. Dame Mary Perkins is a very special person."

ENDS
03/01/19

Useful links: Guto Roberts: 07737 485337 gutojroberts86@hotmail.co.uk
http://www.guernseywelshchoir.com/; https://en.wikipedia.org/wiki/Guernsey;
https://www.visitguernsey.com/; https://en.wikipedia.org/wiki/Mary_Perkins ;
https://stjames.gg/;

<< DATGANIAD CYMRAEG